| Cynllun Ffioedd a Mynediad | |
|---|---|
| Enw'r sefydliad | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| Hyd y cynllun ffioedd a mynediad | 1 Awst 2023 i 31 Gorffennaf 2025 |
| **Adran 1 - Lefelau ffioedd** | |
| Adran 1.1 - Lefelau ffioedd neu benderfynu ar lefel ffioedd ym mhob lleoliad | |
| **Lefel y ffi** | **Lleoliad y cwrs** |
| Uchafswm y ffi a reoleiddir | **2024/25:**<br><br>Prifysgol Metropolitan Caerdydd (Llandaf a Chyncoed)<br>Israddedig amser llawn a TAR (parhaus) |
| £9,000 | **2023/24 a 2024/25**<br><br>Prifysgol Metropolitan Caerdydd (Llandaf a Chyncoed)<br>Israddedig amser llawn a TAR *(blwyddyn mynediad dechreuwyr yn unig)*<br><br>Coleg Gwent<br>Gradd israddedig amser llawn (atodol)<br><br>Coleg Gŵyr<br>Gradd israddedig amser llawn<br><br>Coleg y Mynydd Du |

| | |
|---|---|
| | Gradd israddedig amser llawn |
| £1,800 | **2023/24 a 2024/25:**<br><br>Prifysgol Metropolitan Caerdydd (Llandaf a Chyncoed)<br>Israddedig amser llawn (blwyddyn lleoliad rhyngosod) |
| £1,350 | **2023/24 a 2024/25:**<br><br>Prifysgol Metropolitan Caerdydd (Llandaf a Chyncoed)<br>Israddedig amser llawn (blwyddyn dramor) |
| £8,000 | **2023/24 a 2024/25:**<br><br>Coleg Penybont<br>Gradd israddedig amser llawn |
| £7,500 | **2023/24 a 2024/25:**<br><br>Coleg Penybont<br>HND amser llawn a Gradd Sylfaen<br><br>Coleg Caerdydd a'r Fro<br>HND amser llawn a Gradd Sylfaen<br><br>Coleg Gwent<br>HND amser llawn a Gradd Sylfaen<br><br>Coleg Gŵyr<br>HND amser llawn a Gradd Sylfaen |
| | |

## Adran 1.2 - Lefelau ffioedd cyfanredol

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn bwriadu gosod ffioedd ar gyfer 2023/24 a 2024/25 ar gyfer myfyrwyr sy'n cychwyn ar gyrsiau addysg uwch israddedig amser llawn a ddarperir ar y campws, a'r rhai sy'n parhau ar eu cwrs ar y campws, ar y lefel uchaf a ganiateir bob blwyddyn yn unol â rheoliad Llywodraeth Cymru.

Codir y ffi a nodir yn y tabl uchod ar fyfyrwyr sy'n dechrau ar eu rhaglen gyda cholegau partner. Bydd rhai i fyfyrwyr sy'n parhau ar eu cwrs gyda cholegau partner ac a gychwynnodd mewn blwyddyn gynharach dalu'r ffi a oedd yn berthnasol yn y flwyddyn y gwnaethant ddechrau yn y brifysgol.

Cyfanswm y ffi ar gyfer myfyriwr sy'n cychwyn ar radd israddedig tair blynedd yn 2023/24 fyddai £27,500 ac ar gyfer gradd pedair blynedd gan gynnwys lleoliad rhyngosod blwyddyn, £29,300 (yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn codi lefel uchaf y ffi).

Cyfanswm y ffi ar gyfer myfyriwr sy'n cychwyn ar radd israddedig tair blynedd yn 2024/25 fyddai £27,500 ac ar gyfer gradd pedair blynedd gan gynnwys lleoliad rhyngosod blwyddyn, £29,300 (yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn codi lefel uchaf y ffi).

Cyfanswm y ffioedd ar gyfer myfyrwyr colegau partner yw'r ffi a ddyfynnir uchod wedi'i luosi â nifer blynyddoedd y cwrs (3 blynedd ar gyfer gradd, a 2 flynedd ar gyfer HND neu Radd Sylfaen).

Byddai'r Brifysgol yn disgwyl cynyddu'r ffioedd a godir ar fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd i unrhyw lefel a ganiateir gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r penderfyniad ar ffioedd yn cael eu cadarnhau gan Fwrdd y Llywodraethwyr cyn gynted â phosibl yn dilyn unrhyw gyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y cynnydd a ganiateir, fan bellaf cyn bod unrhyw ymgeisydd ar gyfer 2023/24 neu 2024/25 yn cael cynnig lle ac yn ddelfrydol cyn i lefelau ffioedd ar gyfer dechreuwyr 2023/24 a 2024/25 gael eu cyhoeddi ar y wefan ac mewn prosbectysau. Yn yr un modd, nid ydym yn bwriadu codi lefelau ffioedd gyda phartneriaid.

Yn ei chyfathrebiadau, nod y Brifysgol yw darparu gwybodaeth dryloyw a hygyrch mewn modd amserol. Mae'n dilyn y canllawiau a ddarperir i addysg uwch gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), ac mae'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau ar gyfer cyfleu lefelau'r ffioedd, y lefelau blynyddol a lefel gyfanredol y ffioedd a delir gan fyfyriwr yn ystod cyfnod llawn cwrs. Ymhlith y dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd y mae: gwefannau, deunyddiau argraffedig, a gwybodaeth a ddarperir ar lafar i ddarpar fyfyrwyr. Gwneir cyfathrebiadau yn unol â Siarter Myfyrwyr y Brifysgol, Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol a Safonau'r Gymraeg.

Defnyddir y mecanweithiau canlynol i gyfathrebu â darpar fyfyrwyr cyn iddynt ddechrau yn y Brifysgol a'r bwriad yw y bydd y dulliau hyn yn parhau ar gyfer dechreuwyr 2023/24 neu 2024/25:

- Mae gwybodaeth am ffioedd wedi'i chynnwys ym mhroffil Mynediad Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS), sy'n ddolen uniongyrchol o wahanol adrannau o wefan y Brifysgol.
- Mae gwybodaeth am ffioedd yn amlwg ar wefan y Brifysgol, ac mae'n cynnwys dolenni i wybodaeth am opsiynau cyllido a chymorth ariannol, taliadau ychwanegol, bwrsariaethau/ysgoloriaethau, cyngor ariannol a gwasanaethau lles, a chymorth caledi myfyrwyr.

- Cyfeirir ymgeiswyr at y wybodaeth am ffioedd ar y we trwy eu he-bost cydnabod ymgeisydd. Mae eu gohebiaeth cynnig yn cynnwys manyleb rhaglen a chopi o'r ffioedd dysgu sy'n berthnasol i'w blwyddyn mynediad.
- Mae ymgeiswyr sydd wedi'u cadarnhau yn derbyn cynlluniwr myfyrwyr/cyfarwyddiadau ymuno ar sut i gael gafael ar wybodaeth allweddol am ymuno â'r Brifysgol – h.y. cofrestru, talu ffioedd dysgu ac ati.
- Cynigir sesiynau cyngor cyllid myfyrwyr ym mhob Diwrnod Agored. Mae'r rhain yn cynnwys manylion y gefnogaeth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr ynghyd â darparu gwybodaeth am ffioedd dysgu.
- Wrth ymgymryd â gweithgarwch cyswllt Ysgolion a Cholegau, mae staff y Brifysgol yn cyfeirio darpar fyfyrwyr at y mannau lle gellir dod o hyd i wybodaeth am ffioedd.
- Mae Diwrnodau Ymweld wedi'u hanelu'n arbennig at ysgolion mewn cymdogaethau cyfranogiad isel. Mae'r Brifysgol yn darparu sesiynau cyllid myfyrwyr â ffocws pendant i'r grwpiau hyn, sy'n darparu gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael a ffioedd dysgu.
- Gall darpar fyfyrwyr gyrchu tudalennau gwe Cyngor i Ymgeiswyr y Brifysgol sy'n cynnwys gwybodaeth cyn ymuno graidd ar bynciau megis ffioedd dysgu a chyllid, llety a gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr.
- Anfonir e-byst ar adegau allweddol trwy gydol y flwyddyn at ymholwyr ac ymgeiswyr fel ei gilydd sy'n tynnu sylw at wybodaeth allweddol am gyllid myfyrwyr - ffioedd dysgu, sut a phryd i ymgeisio, Cwestiynau Cyffredin, ac ati.

Mae tudalennau gwe gwybodaeth am gyrsiau yn cynnwys dolenni i wybodaeth am ffioedd ac unrhyw gostau ychwanegol. Mae costau ychwanegol yn berthnasol i rai cyrsiau, gan gynnwys costau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n orfodol ar gyfer rhai cyrsiau, deunyddiau/nwyddau traul, argraffu, teithiau maes a gweithgareddau eraill. Mae'r Brifysgol a'i phartneriaid coleg yn parhau i ymdrechu i leihau nifer a graddfa unrhyw gostau ychwanegol ac i'w hamsugno o fewn y ffi lle bo hynny'n rhesymol. Er enghraifft, Met Caerdydd sy'n talu am gostau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n hanfodol ar gyfer rhai cyrsiau penodol. Mae costau ychwanegol yn benodol i gyrsiau unigol. Bydd manylion y costau ychwanegol ar gael o dan adran Cyllid Myfyrwyr a Ffioedd Dysgu gwefan y Brifysgol, a rhan gyfatebol gwefannau ei phartneriaid breiniol.

Cadarnheir lefelau ffioedd i fyfyrwyr sy'n dychwelyd trwy'r broses gofrestru a'r ohebiaeth sy'n deillio o hynny. Mae'r manylion yn parhau i fod ar wefan y Brifysgol fel yr uchod.

Os bydd Llywodraeth Cymru'n caniatáu unrhyw gynnydd mewn ffioedd, trafodir cynigion gydag Undeb y Myfyrwyr cyn eu cyflwyno i Lywodraethwyr i'w cymeradwyo.

Cyflëir unrhyw newidiadau ffioedd o'r fath i fyfyrwyr fel a ganlyn:

- Caiff newidiadau eu cyfleu i fyfyrwyr sy'n dychwelyd yn yr ohebiaeth a gânt gan Wasanaethau Cofrestrfa'r Brifysgol o ran cofrestru, a chânt eu cyfeirio at wefan y Brifysgol, y Porth Myfyrwyr, a'r Amgylchedd Dysgu Rhithiol fel sy'n briodol ar gyfer y manylion llawn. Y Porth Myfyrwyr yw'r brif ystorfa ar gyfer gwybodaeth tra bod myfyriwr yn astudio yn y Brifysgol.
- Bydd myfyrwyr sydd am ofyn cwestiynau neu geisio am eglurhad ar newidiadau i ffioedd yn gallu gwneud hynny yn y Porth-g, 'siop un stop' y Brifysgol i gael gwybodaeth am bob agwedd ar fywyd myfyrwyr.

- Yn ogystal, bydd ein Gwasanaeth Cynghori Ariannol i Fyfyrwyr ar gael i fyfyrwyr sydd mewn trafferthion ariannol ac i fyfyrwyr sydd ag ymholiadau mwy cyffredinol yn ymwneud â chyllidebu neu gael gafael ar gymorth ariannol, gan gynnwys Cronfa Caledi'r Brifysgol.

Mae'n ofynnol i'n partneriaid AB, Coleg Penybont a Choleg Caerdydd a'r Fro, sy'n cynnig cyrsiau israddedig amser llawn sy'n arwain at ddyfarniadau Prifysgol Metropolitan Caerdydd, adlewyrchu ansawdd a chwmpas dull y Brifysgol o ddarparu gwybodaeth am ffioedd i fyfyrwyr.

## Adran 2 - Partneriaeth Myfyrwyr

Mae myfyrwyr yn ymwneud â datblygiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad yn uniongyrchol trwy ymgynghoriad cam cynnar Undeb y Myfyrwyr (UM) a thrwy gynrychiolaeth ym Mwrdd y Llywodraethwyr. Mae Llywydd ac Is-Lywydd UM hefyd yn aelodau llawn o Fwrdd y Llywodraethwyr lle mae'r Cynllun yn derbyn cymeradwyaeth.

Cadarnheir ein hagwedd at bartneriaeth myfyrwyr trwy ein Cytundeb Perthynas ar y cyd a adolygir yn flynyddol gan Fwrdd y Llywodraethwyr. Mae'r cytundeb yn amlinellu'r berthynas bartneriaeth rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn glir ar sail nifer o drefniadau gan gynnwys:

- Cynrychiolaeth o lais y myfyrwyr trwy'r swyddogion sabothol a chynrychiolwyr myfyrwyr ar Fwrdd y Llywodraethwyr, y Bwrdd Academaidd Cyfun a'i bwyllgorau.
- Cynrychiolaeth o lais y myfyrwyr gan Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr myfyrwyr ar bwyllgorau a gweithgorau eraill neu gyfwerth.
- Cyfarfodydd Undeb y Myfyrwyr rheolaidd, gan gynnwys swyddogion sabothol ac uwch staff gyda chynrychiolwyr o Grŵp Gweithredol yr Is-Ganghellor.
- Cefnogaeth gan y Brifysgol i swyddogion sabothol trwy hyfforddiant a datblygiad a chyfleoedd i friffio cyn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol.

Yn ogystal, mae Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi rhwydwaith helaeth o gynrychiolwyr Ysgol, Arweiniol a Chwrs, sy'n cynnwys mwy na 400 o fyfyrwyr bob blwyddyn, sydd, ynghyd â Swyddogion Rhan-amser, yn sicrhau y gall Llywydd ac Is-Lywydd UM ddarparu adborth gwybodus i bwyllgorau a byrddau'r Brifysgol.

Mae Siarter Myfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd hefyd yn ddatganiad a ddatblygwyd ar y cyd o ymrwymiad y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i brofiad myfyrwyr sy'n gyson â'i gwerthoedd a'i hethos. Mae'n ymrwymo'r Brifysgol a'r Undeb i

a) annog cydraddoldeb a hyrwyddo amrywiaeth

b) ddarparu dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng staff, myfyrwyr a chynrychiolwyr myfyrwyr

c) ddarparu gwybodaeth fanwl a chywir ar raglenni astudio a materion cysylltiedig

ch) hyrwyddo lles pob myfyriwr a darparu cefnogaeth, cyngor, arweiniad a chynrychiolaeth

d) gefnogi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg

dd) ddarparu cyfleoedd ar gyfer cyflogadwyedd a datblygiad personol trwy ddull partneriaeth.

Mae'r Siarter bellach ar-lein ac yn ddwyieithog, gan ddarparu dogfen weladwy a hygyrch. Mae'r Siarter wedi'i hymgorffori yn rhaglen sefydlu staff y Brifysgol ac mae Undeb y Myfyrwyr wedi ymrwymo i gynyddu proffil y Siarter a'r ymgysylltu â hi ymhlith myfyrwyr.

Mae Ehangu Mynediad a Champws Cyntaf Ymestyn yn Ehangach yn casglu barn cyfranogwyr trwy adborth ar ffurflenni asesu cychwynnol a ffurflenni gwerthuso diwedd cwrs. Mae tiwtoriaid hefyd yn mynegi barn gan gyfranogwyr ar eu ffurflenni gwerthuso diwedd cwrs y Tiwtor.

Mae'r Brifysgol yn ceisio adborth gwerthusol gan fyfyrwyr ar eu profiad, ac yn gweithredu arno, ar lefelau modiwl, rhaglen, Ysgol a sefydliad yn systematig. Yn fwy eang, mae'n ymwneud â'r holl arolygon cenedlaethol yn ystod y "Tymor Arolygon" sefydledig ac mae wedi buddsoddi mewn sefydlu ei Arolwg Boddhad Myfyrwyr ei hun i gasglu adborth gan yr holl fyfyrwyr eraill nad oes cynrychiolaeth ohonynt mewn arolygon cenedlaethol. Gwahoddir myfyrwyr partner i gwblhau'r ACF, lle bo hynny'n berthnasol, a rhennir adnoddau gyda cholegau i helpu i hyrwyddo hyn. Gwahoddir y rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer ACF i gwblhau fersiwn fewnol y Brifysgol o'r ACF ac mae ymatebion partneriaid AB wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau cyffredinol sy'n mynd trwy'r strwythur pwyllgorau ar gyfer arolygon yn flynyddol.

Yn fwy cyffredinol, mae'r Brifysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd i fyfyrwyr fynegi eu barn unigol a chyfunol, ac i fod yn bartneriaid ac yn benderfynwyr ar y cyd o fewn y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn elwa o system effeithiol, annibynnol a democrataidd o gynrychiolaeth myfyrwyr. Cynrychiolir myfyrwyr ar bwyllgorau ar lefel Rhaglen ac Ysgol. Mae pwyllgorau cyswllt myfyrwyr-staff yn darparu adborth ar ystod o faterion academaidd ac anacademaidd, gyda chefnogaeth fframwaith cynrychiolaeth myfyrwyr sefydledig ar lefel cwrs, blwyddyn ac Ysgol. Mae'r pwyllgorau hyn yn cael eu cyd-gadeirio gan gynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr.

O ran y ddarpariaeth partner, mae cymedrolwyr yn cwblhau dau adroddiad cymedrolwr bob blwyddyn academaidd sy'n tynnu sylw at ryngweithio â myfyrwyr a'u profiad, ynghyd â chadarnhad ar fewnbwn myfyrwyr i bwyllgorau rhaglenni. Gofynnir hefyd i bartneriaid gwblhau'r cynllun gwella rhaglenni, fel sy'n wir am ddarpariaeth ar y campws. Cwblheir y rhain gan gyfarwyddwyr rhaglen gyda chefnogaeth cymedrolwyr ac fe'u cymeradwyir gan Ddeoniaid Cyswllt ar gyfer Ysgolion perthnasol. Fel amod o bartneriaeth â'r Brifysgol, mae'n ofynnol i golegau partner sy'n darparu darpariaeth freiniol adlewyrchu agwedd fewnol y Brifysgol at gyfathrebu ac ymgysylltu. Adroddir y prosesau hyn o gasglu adborth myfyrwyr i'r Brifysgol yn ganolog trwy ein proses cynllun gwella rhaglenni ac fe gânt eu monitro'n lleol gan gymedrolwyr y Brifysgol sy'n gweithio gyda phartneriaid.

## Adran 3 - Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol

Datblygwyd y cynllun mewn ymateb i adolygiad strategol sy'n sicrhau ei fod wedi elwa o wersi a ddysgwyd o werthuso perfformiad mewn cynlluniau blaenorol ac yn cyd-fynd â strategaethau'r Brifysgol, Mesurau Cenedlaethol CCAUC a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Llywir y Cynllun Ffioedd a Mynediad gan ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac mae'n llywio hwnnw, sy'n nodi ymrwymiad a dull y Brifysgol o feithrin amgylchedd lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion a lle gall rhanddeiliaid weithio, dysgu a datblygu mewn awyrgylch o urddas a pharch.

Ystyrir gan CCAUC nad oes gan y grwpiau canlynol gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch:

- Myfyrwyr o bob oed o'r ddau gwintel isaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.
- Myfyrwyr o bob oed o gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.
- Myfyrwyr o bob oed sy'n astudio'n rhan-amser.
- Myfyrwyr o bob oed sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Pobl o bob oed o ardaloedd cyfranogiad isel mewn AU y DU.

Ystyrir gan y Brifysgol nad oes gan y grwpiau ychwanegol canlynol gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch:

- Dysgwyr a dysgwyr posib anodd eu cyrraedd sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Dysgwyr a dysgwyr posib anodd eu cyrraedd sydd wedi profi anfantais ddaearyddol (gan gynnwys, ond nid yn unig, ceiswyr lloches a ffoaduriaid).
- Dysgwyr a dysgwyr posib anodd eu cyrraedd sydd â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys, ond nid yn unig, myfyrwyr y DU o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr ag anabledd).
- Dysgwyr a dysgwyr posib anodd eu cyrraedd o grwpiau agored i niwed (gan gynnwys, ond nid yn unig, ymadawyr gofal, myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio a gofalwyr).
- Gwrywod ifanc o ardaloedd cyfranogiad isel.
- Cyn-droseddwyr.

Bydd ein menter ehangu mynediad Ymestyn yn Ehangach yn cefnogi gwaith i sicrhau bod pobl o unrhyw oedran, cefndir neu grŵp ethnig yn cael cyfle teg a chyfartal i astudio ym Met Caerdydd mewn modd a gefnogir. Rydym yn targedu'n benodol:

- pobl ifanc hyd at 16 oed ac oedolion dros 21 oed heb gymwysterau lefel 4 yn y ddau gwintel isaf (40% o'r boblogaeth) o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)
- dysgwyr a gofalwyr sydd â phrofiad o ofal ym mhob grŵp oedran yn eu rhanbarth waeth beth fo'r MALIC 40.

Yn ogystal a hyn, mae grwpiau blaenoriaeth RW newydd, sy'n byw yn nwy gwintelau isaf MALIC, yn rhanbarth eu Partneriaeth, gan gynnwys:

- Dysgwyr ôl-16 oed sy'n dysgu ar lefel 4, yn ogystal ag oedolion heb gymwysterau lefel;
- Pobl ag anableddau;
- Pobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig: a
- Dysgu cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cefnogi dysgu ail iaith a diwylliant Cymreig

Bydd y sefydliad hefyd yn cydweithio â'i Bartneriaeth Ymlwybro'n Ehangach ranbarthol i gefnogi darpariaeth i addysg uwch a thrwyddynt.

Rydym yn ymwybodol y gall ymgeiswyr a myfyrwyr eistedd o dan fwy nac un dosbarthiad diffyg cynrychiolaeth ddigonol ac mae ein hamcan a'n hymyriadau wedi'u datblygu gan gadw'r hunaniaethau lluosog hyn mewn cof.

| | |
|---|---|
| **Adran 4 - Amcanion o ran sut y maen nhw'n ymwneud â chefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo AU** | |
| **Adran 4.1 – Cyfle Cyfartal** | |
| 1 | Codi dyheadau a sgiliau addysgol darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth er mwyn denu myfyrwyr i addysg uwch, ac i ddiogelu mynediad teg i'r grwpiau hyn. |
| 2 | Darparu gwybodaeth effeithiol i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, cyn ac yn ystod eu hastudiaethau |

| | |
|---|---|
| 3 | Cefnogi a chynyddu cadw, dilyniant a chyflawniad mewn grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol drwy ddarparu cefnogaeth academaidd, ariannol a lleso ansawdd uchel  i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch |
| 4 | Cefnogi cynnydd grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch i gyflogaeth neu astudiaeth bellach |
| 5 | Darparu cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a chefnogi siaradwyr a dysgwyr Cymraeg |
| **Adran 4.2 - Hyrwyddo addysg uwch** | |
| 1 | Gwella ansawdd profiad myfyrwyr |
| 2 | Codi ymwybyddiaeth o werth addysg uwch |
| 3 | Hyrwyddo ymwybyddiaeth o addysg uwch yng Nghymru’n rhyngwladol, gan gyfrannu at enw da cenedlaethol ac adeiladu partneriaethau |
| 4 | Ymgysylltu’n effeithiol â'r gymuned ranbarthol yn ogystal â chyrff preifat, cyhoeddus a gwirfoddol |
| 5 | Gwella cyflogadwyedd graddedigion |

## Awdurdodi’r cais cynllun ffioedd a mynediad i CCAUC (yn ofynnol er mwyn cyhoeddi)

Wrth awdurdodi ceisiadau cynllun ffioedd a mynediad, mae'r corff llywodraethu:

i. yn cadarnhau ei fod yn parhau i fod yn sefydliad sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru ac yn elusen.

ii. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i ategu'r datganiadau a wneir yn y cais hwn.

iii. yn cadarnhau y bu ymgynghori priodol gyda'i fyfyrwyr, y rhai sy'n astudio yn y sefydliad ac mewn darparwyr eraill lle darperir addysg ar ei ran.

iv. yn cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y cais cynllun ffioedd a mynediad hwn yn gywir ac yn gyfredol, ar adeg ei hysgrifennu, a'i bod yn seiliedig ar ddata y gellir ei wirio.

v. yn cadarnhau: [dilëwch un neu fwy o ddatganiadau, fel sy'n briodol]
   a. ei bod hi'n dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd a/neu arall sydd ganddo am sefydliad a reoleiddir ar hyn o bryd, ni waeth a ddarparwyd y wybodaeth/data yn wreiddiol at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015;
   b. ~~nad yw'n dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd a/neu arall sydd ganddo am sefydliad a reoleiddir ar hyn o bryd at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015; ac~~
   c. ~~ei fod yn cyflwyno gwybodaeth/data newydd, cyfredol, mwy diweddar i lywio asesiad CCAUC.~~

vi. yn deall bod CCAUC yn cadw'r hawl i ymweld â'r sefydliad i ddeall cymhwysedd sy'n gysylltiedig â threfnu a rheoli materion ariannol, y data a gyflwynir ar gynlluniau ffioedd a mynediad a/neu ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, y sefydliad yn well.

vii. yn deall bod yn rhaid iddo ddarparu gwybodaeth, cymorth a mynediad at ei gyfleusterau a chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar ei ran i CCAUC a/neu asiant CCAUC.

viii. yn deall y gall CCAUC gynnal, neu drefnu i asiant gynnal, adolygiad sy'n ymwneud ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran y sefydliad, a rhaid i'w gorff llywodraethu ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan CCAUC neu'r corff a benodwyd gan CCAUC at y diben hwn.

ix. yn cadarnhau bod yr <u>holl</u> addysg a ddarperir ganddo, neu ar ei ran, waeth beth yw lefel neu leoliad y ddarpariaeth, wedi cael ei hystyried yn y cais cynllun ffioedd a mynediad hwn.

x. yn cadarnhau bod risg isel y bydd y sefydliad yn methu ar sail ariannol yn y tymor canolig i'r tymor hir.

xi. yn cadarnhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig ac nad yw'r archwilydd cofrestredig yr un cwmni a/neu unigolyn a baratôdd y cyfrifon.

xii. yn cadarnhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer addysg uwch.

xiii. yn deall bod yn rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wnaed yn y cynllun ffioedd a mynediad, fel y'u cymeradwywyd gan CCAUC.

xiv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi’r un gyfran o incwm ffioedd israddedig amser llawn i hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch ac nid yn lleihau buddsoddiad i hyrwyddo cyfle cyfartal a fwriedir i gefnogi’r rhai hynny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch yn unig.

xv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi ei gyfraniad sefydliadol i’r Rhaglen Estyn yn Ehangach wedi’i alinio â’i Strategaeth a’i Chynllun Gweithredu Estyn yn Ehangach y cytunwyd arno.


xvi. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cymorth  fyfyrwyr.

xvii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn sicrhau y gellir gwneud copi o'r cynllun ffioedd a mynediad ar gael i'w fyfyrwyr mewn unrhyw fformat.

xviii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn cyfeirio ei fyfyrwyr at brosesau cwynion CCAUC mewn modd clir.

xix. yn cymryd pob cam rhesymol i gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy’n astudio ar gyrsiau ôl-raddedig.

xx. Yn ystyried sut y gall buddsoddi gefnogi myfyrwyr sydd wedi’u heffeithio gan y pandemig COVID-19 lle nad ydynt eisoes wedi’u nodi fel grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

| **Cyflwyno’r cais cynllun ffioedd a mynediad i CCAUC**[1] | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyaeth gan y Corff Llywodraethu: | 25 March 2024 |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: |  |
| Dyddiad: | 25 March 2024 |
| **Cyflwyno’r cynllun ffioedd a mynediad terfynol unwaith y bydd CCAUC wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw broblemau pellach (lle bo hynny'n berthnasol)** | |
| Dyddiad cymeradwyaeth gan y Corff Llywodraethu: | |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: | |

[1] Rhaid i gynlluniau ffioedd a mynediad a gyhoeddir ar wefannau'r sefydliad gynnwys fersiynau a gymeradwywyd gan CCAUC yn unig.

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | |